

Gair bach Bethlehem 2021

RHIFYN 24



www.bethlehem.cymru

(trydar) @GweBethlehem

Gwaelod-y-garth

Cyfnod y 'Covid-19' – rhif 24 Ionawr 2021

(Arbedwch inc a phapur! Peidiwch ag argraffu hwn – dim ond ei ddarllen ar-lein.)

CYFARCHION BLWYDDYN NEWYDD!

Gan ein bod ar drothwy'r "Hen Galan", 'dyw hi ddim yn rhy hwyr i ddymuno'r gorau i bawb am eleni. Mae cymaint bellach yn defnyddio'r geiriau "Blwyddyn Newydd Well" y tro hwn – a rhaid cytuno â hynny a gobeithio'r gorau i bawb.

Rhifyn yn drwm o luniau ydy rhifyn cyntaf 2021. Teg dweud mai dyna fu hanes ein Bwletinau o Newyddion Bethlehem ar ôl pob Nadolig a Chalan ers rhai blynnyddoedd. Yr unig wahaniaeth dros Nadolig 2020 oedd i'r mwyafrif o'r oedfaon fod ar-lein. Fel y cyfeirir yn y rhifyn hwn, maen nhw'n dal i'w cael ar y we – ewch nôl atyn nhw!

Wrth i ni gyhoeddi'r rhifyn hwn, mae peth ansicrwydd a fydd yna oedfaon ym Methlehem ei hun ar ambell Sul yn y dyfodol agos, ond gwneir pob ymdrech i gynnig addoliad yn ei le. Cadwch olwg ar negeseuon e-bost Rhodri, ein hysgrifennydd, am y diweddaraf.



Rhan o'r gynulleidfa yn yr oedfa olaf fu ym Methlehem yn 2020 – Y Naw Llith a Charol ar Ragfyr 13.

Isod:

Joseph a Mair ar eu taith i Fethlehem – ond fod tro newydd ar y stori eleni. Llundiau ar dudalennau 6 & 7





2021

"Brechlyn Newydd Dda i chi,
Ac i bawb sydd yn y tŷ,
Pigiad yw'n dymuniad ni,
Brechlyn Newydd Dda i chi !"

Ie! Tybed ai dyna'r gytgan o'dd yn cael ei chanu ar eich aelwyd chi eleni wrth groesawu 2021? Digon posib. Ydy, mae'r brechlyn - y "Game changer" yn ôl yr hen hirwyllt Bojo - wedi cyrraedd, a da o beth yw hynny. Bu proffwydo amdano cyn ei ddod, ac yna fe gyrhaeddodd dros y Nadolig, ond fydd ei effaith a'i ddylanwad ddim yn cael ei wir werthfawrogi tan y Pasg.

Nawr... ai fi yw e', neu ydy'r frawddeg ddiwetha' 'na'n swno'n gyfarwydd? Nage dyna neges ein hen ganeuon Plygain? Proffwydo'r Meseia; gwaredwr mawr y genedl, yna dathlu ei ddyfodiad y Nadolig cyntaf hwnnw, cyn bwrw mla'n i orffen gyda gobaith Sul y Pasg, ac ambell waith mewn ambell i gân ma' 'na bregeth ddiwinyddol ddwys yn para am o leia dau ddwsin o benillion!!! Ond peid'wch a beco, sdim pregeth ddiwinyddol yn gudd yn y geiriau 'ma, dim ond anogaeth, anogaeth yn nhymor y Plygain i ddal yn ysbryd gobeithiol yr hen ganu - mae'r Nadolig wedi bod, ac er taw gaeaf tywyll noethlwm sy' o'n blaenau ni, mi ddaw goleuni'r gwanwyn a gobaith Sul y Pasg.

Felly, cadwch yn ddiogel, a chadwch y ffydd.

Gyda diolch o waelod calon am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn ryfedd a aeth heibio, ga'i ddymuno Blwyddyn Newydd Well i chi gyd.

Delwyn

Mae oedfa'r Cymun, gynhaliwyd ar-lein yr wythnos ddiwethaf yn dal ar gael:

<https://youtu.be/9yMaJ9liVm8> Diolch i Delwyn Sion am ein harwain yn honno, ac i Wyn Jones am ei arweiniad technegol ac am ei rhoi ar YouTube.

Ymateb hael i ymgyrch y Nwyddau Calendr Adfent Amgen



Diolch i bawb gyfrannodd at y "Nwyddau Calendr Adfent Amgen" ar gyfer Canolfan y Drindod (ein helusen leol). Fel gwelwch ar y chwith, uchod, roedd cerbyd y cludwr yn llawn wrth adael Bethlehem. Ar y dde, fe welwch i'ch rhoddion gyrraedd pen eu taith i'w dosbarthu at waith a wneir i gynnig peth cysur i'r fynychwyr y ganolfan. Diolch i Rhodri am awgrymu'r syniad ac i'r "cludwr a chasglwr", Alwyn, am ofalu bod y rhoddion yn cyrraedd pen eu taith.

Yr Ysgol Sul ar Zoom

Bydd yr Ysgol Sul yn ail-gychwyn ar-lein ar
Ionawr 17.

Y plant a'u rhieni, ynghyd â Heulwen, sydd wedi bod yn ymuno, gan amlaf, a hynny ar Zoom. Ond cofiwch, mae yna bob amser groeso i unrhyw un ymuno o'r newydd ar fore Sul am 10.30. Cofiwch roi gwybod i Heulwen yn gyntaf –

heulwen@btinternet.com neu 07779 360614

I ymuno bob bore Sul - cliciwch ar y linc isod:

<https://us02web.zoom.us/j/71466343537?pwd=M2Nia2F3YWU3ZmJDZWNUNdD3M3ZCUT09> neu ewch i mewn i Zoom gan ddefnyddio'r rhif adnabod:

714 6634 3537

Cyfrinair: **Bethlehem**

Oedfaon nesaf Bethlehem

Dyddiad	Trefn a fwriadwyd ar gyfer yr oedfa	Trefniant diweddaraf
10 Ionawr	Oedfa Blygain (ar-lein)	(Oedfa rithiol ar-lein dan arweiniad Rhodri – gweler y llun ar dudalen 9) https://youtu.be/a9ubsF8bmRA
17 Ionawr	Parchg Gethin Rhys	(I'w gadarnhau – gwylwch am neges e-bost) *Yr Ysgol Sul yn ail-gychwyn ar-lein
24 Ionawr	Parchg Dafydd Andrew Jones	(I'w gadarnhau – gwylwch am neges e-bost)
31 Ionawr	Parchg Robin Wyn Samuel	(yn debygol iawn o fod ar-lein)
7 Chwefror	Delwyn Sion	(yn debygol iawn o fod ar-lein)

Oherwydd bod yr amodau a chyfyngiadau wedi newid mor aml, mae'n anochel bod angen, fel y llynedd, addasu ychydig ar y drefn. Mae'n diolch yn fawr i Delyth Evans, Y Barri, sydd wedi gorfod dad-wneud ac ail-blethu'r drefn dros y misoedd cyfnewidiol hyn.

Pen-blwydd Hapus i...

Caneuon Ffydd

yn 20 oed y mis hwn!

Anodd credu iddo gael ei gyhoeddi yn Ionawr 2001



Cronfa Cynllun Nawdd Cyfundeb Dwyrain Morgannwg

Rhodri-Gwynn Jones

Yn y rhifyn diwethaf o'r "Gair bach" fe rennais wybodaeth am "Raglen Arloesi a Buddsoddi Undeb yr Annibynwyr", gan adrodd y byddai cyfle i wneud cais am gefnogaeth ariannol "*i fuddsoddi yn ein dyfodol drwy fentro mewn ffyrdd newydd ac arloesol o hyrwyddo a chyhoeddi'r Efengyl, ac estyn allan i wasanaethu ein cymunedau a'n hardaloedd.*" Fe gofiwch bod symiau sylweddol iawn ar gael - hyd at £50 000 [£10 000 y flwyddyn] dros gyfnod o 5 mlynedd.

Y tro hwn dyma ddadlennu cyfle i sicrhau cefnogaeth ariannol o ffynhonnell arall – Cronfa Cynllun Nawdd Cyfundeb Dwyrain Morgannwg.

Symiau llai fyddai ar gael o'r gronfa yma – dim mwy na £5000 tuag at brosiect unigol mewn blwyddyn, a maint y gronfa yn ei chyfanrwydd yw £54000.

Yn drist iawn, swm a drosglwyddwyd ym mis Mawrth 2016, gan Ymddiriedolwyr Capel Peniel, Llanhari, yn dilyn cau y capel hwnnw, yw'r arian dan sylw, ac wrth ei drosglwyddo i'r Cyfundeb, mynegwyd amod y dylid defnyddio'r arian i gynnal y weinidogaeth, i ddatblygu eglwysi, neu tuag at brosiectau cenhadu.

Ni ddylid defnyddio'r gronfa tuag at gostau cynnal a chadw neu i atgyweirio adeiladau.

Mae'r llythyr gwahodd, a dderbyniwyd oddi wrth y Cyfundeb, yn tynnu sylw penodol at y cyfnod heriol y mae'r eglwysi bach a mawr wedi eu hwynebu tros y cyfnod diweddar o gyfyngiadau, ac yn nodi i nifer "*...fabwysiadu dulliau*

amgen o gyflwyno cenadwri'r efengyl tra'n parhau i gynnal gweithgareddau creiddiol eraill megis yr Ysgol Sul, gwaith bugeiliol ac ymgyrchoedd elusennol."

Ond ymhellach "*...bod y cyfnod hwn wedi cynnig cyfle i gymryd stoc o ran effaith a gaiff ein ffyrdd o weithredu ar y gymuned ehangach, ac i ystyried o ddifrif sut y gellir symud ymlaen i gyflwyno cynlluniau newydd ac arloesol sy'n fwy perthnasol i anghenion presennol ein cymunedau lleol.*"

- Mae hawl gan eglwysi unigol neu eglwysi ar y cyd i wneud cais am gymorth, a gall y byddai'r Cyfundeb yn cynnig cefnogi cyfran o gostau unrhyw Gynllun arfaethedig (a'r eglwys yn cyfrannu'r gweddill).
- Gall cynlluniau sy'n para dros gyfnod o fwy na blwyddyn gael eu hystyried.
- Gall cynlluniau sydd eisoes wedi derbyn rhan o'r arian sydd ei angen i wireddu'r cynllun o ffynhonnell arall gael ei ystyried.
- Pwyllgor Gwaith y Cyfundeb fydd yn tafoli'r ceisiadau, a hynny yng Nghyrrddau Chwarter y gwanwyn neu'r Hydref.

Mae'r dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am gefnogaeth o'r Gronfa wedi ei osod fel **1af o Fawrth 2021**, ac wedi hynny rhagwelir cyfleoedd ddwywaith y flwyddyn tra byddai arian yn weddill yn y Gronfa.

Byddai derbyn syniadau o du'r aelodaeth yn werthfawr iawn er sicrhau bod ystyriaethau eang, priodol a thrylwyr yn cael eu rhoi cyn llunio unrhyw cais i'r Gronfa.





Fel merch i Weinidog Wesle (a Dilwyn yn fab i Weinidog Wesle) fe ddisgwyliech chi y byddai'r ddau yn barod am fywyd sefydlog. Ond fel arall y bu hi. Roedd y chwilen "newid aelwyd", os nad "bob yn eilddydd" yna bob pum mlynedd, yn batrwm bywyd iddyn nhw. Ganed Marian ym Magillt, Sir y Fflint, pan oedd ei thad yn Weinidog yno. Symud wedyn i Lanfyllin, Coedpoeth a Wrecsam, Conwy ac Abergele. Oddi yno y daeth Marian i Fangor ddiwedd pumdegau'r ganrif ddiwethaf i fod yn fyfyrwraig yng Ngholeg y

Santes Fair. Ar ddiwedd ei chyfnod yno cafodd swydd fel athrawes yn Ysgol Gynradd Abergele (a Dilwyn yn ysgol uwchradd y dref). Wedi sefydlu eu cartref cyntaf yn Llandrillo-yn-Rhos, oherwydd galwadau gwaith a chynnydd yn y teulu, fe symudon nhw eu cartre wyth o weithiau rhwng De a Gogledd. Bu Marian yn athrawes yn Heol y Celyn ac ym Mryntaf cyn troi at fyd addysg i oedolion.

Ble bynnag y buo nhw'n byw, roedd chwaeth Marian yn amlwg ar yr aelwyd. Roedd taclusrwydd y tai yn adlewyrchu steil a serenedd ei phersonoliaeth hi ei hun. Yn hardd a hawddgar, gosgeiddig a grasol roedd gan Marian gonsarn am bawb ond amdani hi ei hun. Bu'n aelod ffyddlon ym Methlehem ac o Gylch y Merched am flynyddoedd.

Rai blynyddoedd yn ôl cafodd lawdriniaeth enfawr yn Ysbyty Treforys a bu teulu Bethlehem yn gweddio'n daer drosti ac yn llawn edmygedd o ofal ei theulu ei hun ohoni. Er cystal cymwynas cymdogion, bu'r lloches a gafodd yng nghartref Anna am yr wythnosau olaf yn fendith fawr. Yr oedd rhuddin i'w chymeriad a dewrder yn ei henaid.

Am un annwyl mae'r wylo'n
Ddafnau cudd o fewn y co'.

(Dic Jones)

Anfonwn ein cofion hefyd at ...

Nest Huws a'r teulu, yn Ffynnon Taf. Bu farw chwaer Nest, Dorothy Hughes, ar Ragfyr 17, yn Ysbyty Treforys. Roedd hi'n byw ym Mhontarddulais ond yn wreiddiol o Gwmafan, a hi oedd yn fuddugol ar yr Unawd Cerdd Dant yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llandudno 1963. Isod, gwelir englynion penfyr o eiddo ei brawd yng nghyfraith, Martin Huws, er cof amdani.

Er cof am Dor

Crac mewn argae, yn wae, yn wad. Pam hyn?
pam hi? Heb ddiffiniad,
yn ddof ein cân, amddifad.

Ei hawen oedd ei ffydd wenfflam. Cofio'r
cyfan roes anwyllfam.
Ein Sul a drodd yn seilam.

Yn wag roedd y tŷ fel cragen, heb gân,
heb gwsg. Ffrâm anniben,
yn y lle gwena'n llawen.

Yn ddygn, teimlwn yn ddiegni, yn foel,
ni fel clwtyn llestri.
Dim nerth felly dyma ni.

Rhywle mae ei ffrog amryliw. Heb hon,
heb haul, y lle'n unlliw.
Mae'n waddod i fod yn fyw.

Ar ôl bedd fe ddaw rhyfeddod - yn gloch
fe glywn aur ei thafod.
I bawb mae'r eos yn bod.

Martin Huws

Gair o ddiolch

Yn dilyn marwolaeth ein mam annwyl, Marian Jones, ar yr 11eg Rhagfyr, hoffai'r teulu ymestyn eu diolch a'u gwerthfawrogiad i aelodau Capel Bethlehem a thu hwnt am eu caredigrwydd, negeseuon cynhesaf a'u haelioni dros yr wythnosau diwethaf.

Oherwydd y cyfyngiadau presennol, cynhelir gwasanaeth coffa yn y gwanwyn ar gyfer ei theulu estynedig a'i ffrindiau i gyd-ddathlu ei bywyd. Byddwn yn cyhoeddi'r trefniadau yn hwyrach yn y flwyddyn.

Buom ni'n tri a'n teuluoedd mor ffodus o'i chael fel mam, nain ac yn ffrind fuodd mor ddewr, mor gefnogol a mor gariadus - fe fyddwn ni gyd yn ei cholli.

Cofion gorau

Anna (Townson)

Dyma nhw – aelodau'r Ysgol Sul fu'n cymryd rhan yn y ddrama Nadolig yn 2020. Hwn oedd y cynhyrchiad Nadolig rhithiol cyntaf i Fethlehem. Roedd angen i bob cyfraniad gael ei recordio ar wahân, oherwydd y cyfyngiadau, felly bu'r cyfan yn gryn sialens i'r awdur, Heulwen (ar y dde), ac i'r golygydd, Wyn. Diolch arbennig iddyn nhw, ac i bawb fu'n cefnogi'r cast.



Rhagor o luniau'r cast ar y dudalen nesaf:

Cast "Nadolig yr Herodofeirws"

Mair a Joseff Gwenni ac Aaron Owen-Griffiths

Sêr-ddewiniaid
Awen ac Alaw Davies
Gruffudd Evans

Herod Mabon Rhys **Gwas** Trystan ap Rhys

Gabriel
Olwen Lloyd, Anna Tilsley
Elsi Tame, Enfys Biggs

Elisabeth Luned Garside

Perchnogion y llety Awen a Sara Thomas

Angylion

Alys ac Anni Huws
Elin ac Eira Jones
Pegi a Clara Warlow
Ffion a Nia Huws
Eluned Evans a Nanw Davies

Bugeiliaid

Elis a Steffan Davies
Wil Wyatt a Tomos Green
Osian Eldridge

Criw uwchradd


Ffion a Mabli Biggs
Garmon Tilsley ac Ifan Garside
Megan Thomas a Nel Tame

Mae'r cyfan yn dal ar gael ar YouTube:

<https://youtu.be/CEhJAFASvVQ>



Hon oedd yr oedfa olaf yn 2020 i bawb fel aelodau allu ei mynychu. Mae'n amhosib cyfleu'r cyfan ohoni ar y dudalen. Ewch i gael golwg arall arni ar y we. Mae'n dal ar gael ar YouTube: https://youtu.be/_VB-uj6HA8E Y cyfan gewch chi isod ydy rhai o'r delweddau oddi ar y sgrin – heb gerddoriaeth y carolau! Diolch i Delyth am gywain y cyfranwyr, i Eilir am ddod â pharti merched a chymysg Bethlehem ynghyd i ganu dau drefniant o'i eiddo o garolau ac am gyfraniadau CF1; diolch i Wyn Jones, unwaith yn rhagor, am roi'r cyfan ar ein sgrin. A diolch i bawb fu'n cymryd rhan – naill ai yn fyw yn y Tŷ Cwrdd neu ar-lein.



Chwith uchod: Y Parti Merched;
Dde Uchod: Côr CF1



Dde isod: Y Parti Cymysg a Delyth wrth yr organ



Isod: i'n hatgoffa am ein helusen leol, cawsom air yn yr oedfa gan Ffion a chip ar y gweithgaredd yng Nghanolfan y Drindod, ar Heol Casnewydd. Ar dudalen 2 o'r rhifyn hwn, fe welwch hefyd ganlyniad i'r ymateb am nwyddau i'r 'Calendr Adfent' aeth i'r ganolfan o Fethlehem.





Oedfa rithiol gafwyd ar fore'r Nadolig, gyda chyfraniadau o Ohio, Caernarfon, Penrhyn-coch, Caerfyrddin, Bro Morgannwg, Llundain a Gwent. Dyma rai o'r lluniau welwyd ar eich sgriniau. Mae'r oedfa hon yn parhau ar-lein: <https://youtu.be/OMk8ca8iS10>. Yn y fan honno, gallwch hefyd glywed y caneuon yn eu llawn ogoniant, gan gynnwys Carol y Clo, gan Ieuan Wyn a Hanna Hopwood. Diolch i Rhodri am drefnu'r cyfranwyr ac i Wyn, unwaith eto, am ddod â'r cyfan ynghyd.



RHAGFLAS O'R PLYGAIN RHITHIOL...



Mae 15 mlynedd ers i'r Parti hwn ganu "Suai'r Gwynt" ym Mhlygain Bethlehem.

Maen nhw, ynghyd a llu o gantorion eraill, yn mynd i fod yn rhan o'r oedfa Blygain rithiol fydd ar gael ar gyfer y Sul nesaf, Ionawr 10, 2021.

(llun cyfansawdd oddi ar y fideo gwreiddiol)

Bydd yr oedfa ar YouTube ar ôl 7.00 bore Sul;

<https://youtu.be/a9ubsF8bmRA>

"Dwi newydd orffen paratoi cyfleth" oedd fy neges flwyddyn newydd i'r wyrion.

"Beth ydi cyfleth?" oedd yr ymateb cyntaf! Fel roedd hi'n digwydd cefais gylchlythyr Cyfeillion Geiriadur Prifysgol Cymru yr un diwrnod â'r smonach yn y gegin. Geiriadur hanesyddol sydd yn olrhain tarddiad geiriau ydi'r Geiriadur sydd yn dathlu ei sefydlu ganrif union yn ôl yn 1921. Llywydd y GPC ydi Myrddin ap Dafydd, ac yn ei gyflwyniad mae'r Archdderwydd yn trafod y cyfarchiad 'Gwyliau Llawen', sydd yn gyfystyr a 'Nadolig Llawen', mewn nifer o ardaloedd gwledig y Gogledd.

Dwi yn cofio y dywediadau 'cacen gwyliau' a 'pwsdin gwyliau' pan oeddwn yn hogyn yn Llansannan. Yn ôl Myrddin, arferiad eglwysig o gynnal deuddeg gŵyl yn y deuddeg niwrnod ar ôl y Dolig ydi cyd destun y gair Gwyliau. Mae'r Prifardd yn mynd ymlaen i restru gwir ystyr y "*Twelve days of Christmas*":

Rhagfyr 25 Gwyl y Geni

Rhagfyr 26 Gwyl San Steffan

Rhagfyr 27 Gwyl Ioan yr Efenglydd

Rhagfyr 28 Gwyl y Gwirioniaid

Rhagfyr 29 Gwyl Thomas Becket

Rhagfyr 30 Gwyl y teulu Sanctaidd

Rhagfyr 31 Gwyl ffoi i'r Aifft

Ionawr 1 Gwyl Fair.

Ionawr 2 Gwyl Gregory

Ionawr 3 Gwyl enwi'r Iesu

Ionawr 4 Gwyl Hermes

Ionawr 5 Noswyl Ystwyll

Ionawr 6 Gwyl Ystwyll



Mae'r Geiriadur yn cofnodi tua 400 o eiriau newydd bob blwyddyn, yn ogystal â diweddarau'r casgliad o eiriau o'r ganrif ddiwethaf. Mae Ann Parry Owen, un o staff y Geiriadur yn y Ganolfan Uwchefrydiau Cymraeg a Cheltaidd yn Aberystwyth, yn trafod 350 o ymadroddion neu ddywediadau anfonwyd i'r Geiriadur gan Gwilym Morris Jones. Casgliad o eiriau y byddai ei fam, Mary Pritchard o fferm Plas Isa, Betws Garmon, yn ddefnyddio 'slawer dydd'.

"Ma' hwn fel yr enfys, yn dŵad i'r golwg ar ôl i'r storm fynd heibio" oedd disgrifiad Mary o blismon! Beth ydych chi'n feddwl ydi ystyr y dywediad "Cael croesi ar y man culaf i'r afon?" Ymadrodd am rywun sydd wedi marw'n naturiol heb ddiodef salwch, ydi'r ateb.

Beth fydda eich cyfieithiad chi o "ball bearings"? "Hadau beics" oedd y teulu Pritchard yn ddefnyddio nôl ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf. Beth fyddech chi'n ddweud am "fancy man" rhyw hen ferch, tybed? "Ceiliog cynorthwyol" oedd disgrifiad mam y bonwr Gwilym.

"Trol fawr a llwyth bach"? Wel disgrifiad o bregethwr gwael sy'n ymddwyn yn fawreddog ydi'r ymadrodd. Gwell tewi heb awgrymu dim! Gyda llaw, fe aeth y toffi "lawr yn grêt."

Dechreuwch feddwl...

**am ysgrifennu erthygl fyddai eich cyd-aelodau'n gallu ei ddarllen
yn rhifyn Chwefror**

Gair bach Bethlehem

Dyddiad olaf derbyn deunydd:

Chwefror 10^{fed}